Esther Lewis 1887–1958
Cenhades

Ganed Hetty Evans ar fferm Efail-y-Banc yn Rhydargaeau, Caerfyrddin. Gof oedd ei thad John Evans a oedd wedi etifeddu'r efail gan ei dad yntau. Yr oedd y teulu'n aelodau ffyddlon o'r eglwys a gyfarfyddai yng nghapel Bethel, Rhydargaeau.

Wedi cyfnod yn yr ysgol elfennol fe aeth i weithio fel cynorthwyydd mewn siop, ac yn y cyfnod hwnnw ymdeimlodd â galwad Duw i'r genhadaeth dramor i wasanaethu a thystio i'w Gwaredwr. Penderfynodd ailgydio yn ei haddysg trwy fynychu Ysgol Uwchradd Caerfyrddin lle y'i hyfforddwyd fel athrawes a chafodd waith yn Ysgol Pen-y-groes, Dyfed ym 1912. Treuliodd ddwy flynedd yn yr ysgol honno ac yna fe aeth am gyfnod byr i weithio gyda chenhadaeth Chapman ac Alexander yng Nghaeredin lle y magodd brofiad gwerthfawr.

Neilltuwyd hi i'r genhadaeth yng Nghymanfa Gyffredinol Bootle, Lerpwl, ym mis Mai 1914. Ym mis Medi'r un flwyddyn hwyliodd i India, i Karimganj, ardal oedd yn enwog am ei wres llethol ac a elwid gan rai y "Popty Poeth". Yn yr ardal honno, tra oedd y gwŷr allan yn gweithio, byddai'r gwragedd yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser o'r golwg yn eu tai. Rhoddai hynny gyfle arbennig i genadesau i ymweld â hwy er mwyn sgwrsio am iechyd plant, gwnïo ac am yr Efengyl Gristnogol. O'r cyfarfodydd hynny y datblygodd mudiad y Zenana. (Zenana oedd y rhannau hynny o anedd-dai Hindwaid o gast uchel lle y gwaherddid gwrywod nad oedd yn deulu agos.)

Penderfynwyd cynhyrchu ac argraffu papur Cristnogol wedi ei anelu at ferched yn dwyn y teitl *Cyfaill Merched Bengal*. Nid oedd dim byd tebyg i'w gael yn India ar y pryd a bu'n gymorth i hyrwyddo'r gwaith Cristnogol gan ei fod yn mynd i mewn i gartrefi lle'r oedd llawer mwy yn cael cyfle i ddarllen am y "newyddion da o lawenydd mawr".

Gwelwyd hefyd yr angen i ddatblygu addysg ac ysgolion ac aethpwyd ati i agor ysgolion dyddiol yn y pentrefi. Dechreuodd

Hetty weithio yn yr ysgol yn Karimganj ac ym 1925 fe'i gwnaed yn brifathrawes.

Oherwydd y gwres llethol byddai'r ysgolion yn cychwyn tua chwech o'r gloch yn y bore er mwyn osgoi tymheredd crasboeth y prynhawn. Ond yn y Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yng Nghroesoswallt ym 1933 penderfynwyd cau'r ysgolion, er mwyn rhyddhau'r athrawon i wneud gwaith arall. Daethpwyd i'r casgliad mai gwell fyddai mynd ati i geisio efengylu yn y pentrefi bach cyfagos gan dargedu gwragedd a merched ifanc. Ceisiwyd gwneud hynny trwy eu dysgu i ddarllen a gwnïo yn ogystal â'u haddysg ynghylch glanweithdra. Defnyddiwyd hefyd y 'Magic Lantern' fel dull o gyflwyno'r Efengyl. Gosodid cynfas wen rhwng dau bolyn yn y pentrefi ac yna dangoswyd lluniau wrth adrodd hanes Iesu Grist. Cynorthwyodd Esther Lewis Dr Helen Rowlands i agor cartref i weddwon yn Karimganj a elwid yn Dipti Nibash (Annedd Goleuni).

Yn ystod cyfnod o wyliau priododd ar 1 Mawrth 1945 yng Ngharmel, Aberafan â David John Lewis, blaenor uchel ei barch yng nghapel Bethania (MC) Cymer Afan, byr iawn fu eu bywyd gyda'i gilydd oherwydd ar yr ail o Hydref yn yr un flwyddyn bu fawr ei phriod ar ôl gwaeledd byr. Yn sgil ei phrofedigaeth lem dychwelodd i India ond y tro hwn i bentref Sylhet i weithio ymhlith gwragedd. Cyn hir ymddeolodd gan ymgartrefu gyda'i chwaer yn Cross Inn. Bu farw yn ysbyty Caerfyrddin ar 4 Tachwedd 1958 a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Cymer.